Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i:
# Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd

Yn cau 18 Medi 2023.

Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

**Cwestiwn 1**

Mae'r Fframwaith Cyffredinol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn nodi chwe chanlyniad strategol cyffredinol:

1. Prin
2. Byrhoedlog
3. Ddim yn digwydd eto
4. Gweithlu
5. Ymateb Gwasanaethau Cyhoeddus
6. Canolbwyntio ar yr unigolyn

Ar sail prif egwyddorion y fframwaith (yn adran tri), i ba raddau ydych chi'n cytuno mai'r meysydd uchod yw'r ffocws strategol cywir ar gyfer y fframwaith

- Cytuno'n gryf
- **Cytuno**
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

**Os ydych yn 'cytuno'n gryf/cytuno' - Esboniwch pam eich bod yn credu mai'r canlyniadau strategol hyn yw'r meysydd cywir i'w cynnwys yn y Fframwaith**

I ddod â digartrefedd i ben mae angen dull gweithredu ar y cyd ac mewn partneriaeth. Gall y rhesymau dros ddigartrefedd fod yn gymhleth ac mae angen dulliau holistaidd sy'n adeiladu ar ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a all ddarparu ar gyfer unigolion a theuluoedd sy'n ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref.

**Os ydych yn 'anghytuno'n gryf / anghytuno' – Esboniwch pa ganlyniadau strategol na ddylid eu cynnwys; neu pa rai eraill y dylid eu cynnwys.**

N/A

**Ystyriwch y Prif Egwyddorion yn Adran 3 wrth gynnig syniadau.**

Er eu bod yn uchelgeisiol, rydym yn cytuno bod yr egwyddorion allweddol a gynigir yn deg, yn glir ac yn canolbwyntio ar atal digartrefedd cychwynnol ac ar atal digwyddiadau yn y dyfodol, a fydd, yn ein barn ni, yn rhoi'r ffocws cywir ar gyfer y fframwaith.

**Cwestiwn 2a**

**A oes canlyniadau manwl eraill y dylem yn eich barn chi eu cynnwys? (darllenwch y diffiniad o ganlyniadau manwl ar dudalennau 16 – 31)**

- **Oes**
- Nac oes
- Ddim yn gwybod

**Os oes, rhestrwch nhw gan esbonio pam y dylem eu cynnwys. Rydym ni'n awgrymu'ch bod yn ystyried y Prif Egwyddorion yn Adran 3 wrth gynnig canlyniadau newydd.**
Rydym yn ansicr p'un a fyddai'n ychwanegiad ynteu'n diwygio un o'r rhai presennol, sef y dylai gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau a chymorth arall i atal digartrefedd neu gael y digartref i mewn i dai gydweithio mewn partneriaeth i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Gallai gyfeirio at bum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 neu drwy ddulliau eraill.

**Cwestiwn 2b**
**A oes unrhyw ganlyniadau manwl sydd wedi'u cynnig y dylem yn eich barn chi eu tynnu o'r rhestr?**

- Oes
- **Nac oes**
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 2c**
**A oes canlyniadau manwl sydd wedi'u cynnig y gallem eu gwella?**

- Oes
- Nac oes
- **Ddim yn gwybod**

**Os oes, rhestrwch nhw gan esbonio pam y gallem eu gwella. Rydym ni'n awgrymu'ch bod yn ystyried y Prif Egwyddorion yn Adran 3 wrth gynnig gwelliannau.**
Gweler ein sylw o dan gwestiwn 2a. Yn ogystal, efallai bod rhywbeth yn ymwneud â sicrhau tai priodol a diogel. Er bod hyn yn cael ei gynnwys yn rhannol o dan "heb ei ailadrodd", credwn y gellid ei gryfhau, yn enwedig wrth feddwl am bobl sy'n agored i niwed, rhai sydd â chyfyngiadau corfforol yn ogystal â goroeswyr a dioddefwyr troseddau casineb a cham-drin domestig.

**Cwestiwn 3**
Cydraddoldeb, gwrth-wahaniaethu a hawliau dynol yw sail ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd sy'n cydnabod bod rhai grwpiau yn fwy tebygol o lawer o wynebu anghydraddoldeb, gwahaniaethu ac ymyleiddio fel rhwystrau. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu hynny trwy:

- Prin: Canlyniad Manwl 2 – Nodi'r grwpiau sydd fwyaf mewn perygl a rhoi mesurau yn eu lle fel bod llai o bobl o'r grwpiau hyn yn profi digartrefedd a
- Canlyniad Strategol 6: Canolbwyntio ar yr Unigolyn, a'r canlyniadau sy'n sail iddo.

**I ba raddau y mae'r fframwaith canlyniadau'n help digonol i fesur cynnydd at y nod cyffredinol hwn?**

Cytuno'n gryf

- **Cytuno**
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

**Os ydych yn 'cytuno'n gryf / cytuno' – esboniwch pam eich bod yn meddwl bod y fframwaith canlyniadau'n help digonol i fesur cynnydd at y nod cyffredinol hwn?**
Mae cyfeiriadau penodol o dan Prin ac sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, ond heblaw am nodi plant a phobl ifanc yn benodol, nid oes unrhyw fanylion penodol am y rhai â nodweddion gwarchodedig sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigartrefedd. Gall fod yn briodol cynnwys a chreu cyswllt â'r Cynlluniau Gweithredu LHDTC+, Cydraddoldeb Hiliol ac Anabledd a gyda Strategaeth Tlodi Plant Cymru, gwaith ar wrth-gaethwasiaeth ac ar Gyfamod y Lluoedd Arfog.

**Os ydych yn 'anghytuno'n gryf / anghytuno' – esboniwch pam eich bod yn meddwl nad yw'r fframwaith canlyniadau'n help digonol i fesur cynnydd at y nod cyffredinol hwn?**
N/A

**Cwestiwn 4**
Ddim yn digwydd eto: Canlyniad Manwl 1 – Mae Nid yw pobl yn profi cyfnodau niferus o fod yn ddigartref yn cysylltu â dangosydd data (a) Nifer yr aelwydydd a dderbyniodd cymorth o dan y ddyletswydd cymorth (adran 73) a gyflwynodd cais digartrefedd arall yn ddiweddarach (o fewn X mis) (absoliwt, fesul 10,000 o aelwydydd ac fel cyfran o'r holl geisiadau)
**O ran profi digartrefedd am yr eildro, beth fyddai yn eich barn chi yn gyfnod priodol o amser (at ddiben cofnodi data) ar gyfer aelwyd rhwng derbyn cymorth o dan y ddyletswydd cymorth a chyflwyno cais digartrefedd arall (o fewn X mis)?**

i) 6 mis
ii) **12 mis**
iii) Arall (manylwch)

**Rhowch eich rhesymau am eich ateb.**

Mae angen cydbwysedd yn yr amserlen rhwng peidio â bod yn rhy fyr nac yn rhy hir. Ond mae'r mwyafrif o bobl sydd angen cymorth tymor byr er mwyn gallu dal tenantiaeth yn ei gael fel arfer o fewn chwe mis, felly mae'n bosibl na fyddant wedi cael y cyfle i ddangos nad ydynt yn mynd i fynd trwy gyfnod arall oherwydd eu bod newydd ddechrau gwneud hynny ar eu pen eu hunain. Y risg wrth wneud yr amserlen yn rhy hir yw, er y gellir datrys yr achos cychwynnol gall achosion eraill sydd allan o reolaeth naill ai'r unigolyn neu'r teulu neu'r rhai sy'n eu cefnogi, megis cynnydd mewn rhent a achosir gan gostau byw ddigwydd.

**Cwestiwn 5 (a)**
Ddim yn digwydd eto: Canlyniad Manwl 3 - Mae pobl yn gallu cael y cartref cywir yn y lle cywir
Rydym yn cydnabod bod hwn yn ganlyniad anodd ei fesur ac nid yw'r dangosyddion data a gynigir yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd mewn casgliadau data (er y gellir yn y cyfamser defnyddio procsi ar gyfer dangosydd b trwy ddefnyddio dangosydd tracio Tai yn Gyntaf Cymorth Cymru).
**Nodwch wrth bob un o'r dangosyddion data posibl isod a ydych yn meddwl y gallem eu defnyddio i fesur cynnydd mewn cysylltiad â'r canlyniad?**

**(a) Nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl derbyn cymorth (Anghenion Isel/Canolig)**

- **Ydw**
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**(b) Nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl cael cymorth tai dwys fel Tai yn Gyntaf (Anghenion Uchel)**

- **Ydw**
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**(c) Nifer a chanran y bobl sydd wedi aros mewn llety â chymorth sy'n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl dechrau'r denantiaeth (Anghenion Dwys)**

- Ydw
- Nac ydw
- **Ddim yn gwybod**

**Os ydych wedi ateb 'nac ydw' i unrhyw un o'r dangosyddion a gynigir, esboniwch y rheswm am eich ateb gan gynnwys cynnig dangosydd data arall yn ei le**
Roeddem yn ansicr ynghylch y rheiny ag anghenion dwys gan fod y cymorth yn barhaus ac felly efallai y byddai'n fwy priodol cyfrif mewn ffordd wahanol.

**Cwestiwn 5 (b)**
Mae dangosyddion data (a), (b) ac (c) uchod yn cyfeirio at gadw tenantiaethau am gyfnodau o 6 mis.
**I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cyfnod amser 6 mis hwn?**

- Cytuno'n gryf
- **Cytuno**
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

Rydym yn cytuno mewn egwyddor yn enwedig ar gyfer (a) a (b) ar gyfer cynnal am chwe mis ar ôl darparu cymorth, i'r rheiny ag anghenion dwys neu anghenion mwy hirdymor efallai na fydd hynny'n briodol.

**Cwestiwn 6 (a)**
Byrhoedlog: Canlyniad Manwl 2 – Mae Neb yn profi digartrefedd dros gyfnod tymor hir yn cysylltu â dangosydd data (a) Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd tymor hir (absoliwt a'r gyfradd fesul 10,000 o aelwydydd)
**Beth yn eich barn chi fyddai cyfnod amser addas ar gyfer mesur digartrefedd tymor hir?**
i) 6 mis
ii) 12 mis
iii) Arall (manylwch)
**Rhowch eich rhesymau am eich ateb.**
O dan amgylchiadau arferol byddem yn cytuno y byddai chwe mis yn dymor hir i fod yn ddigartref, ond gyda'r prinder llety rhent cymdeithasol a phreifat priodol a welir ar hyn o bryd efallai na fydd hyn yn rhesymol ac y bydd yn achosi i bartneriaid fethu. Fodd bynnag, rydym yn dal i feddwl y dylai fod yn darged i chwe mis gael ei ystyried yn hirdymor ac nid fel rhywbeth arferol er lles yr unigolion a'r teuluoedd ac er budd cydlyniant cymunedol.

**Cwestiwn 6 (b)**

Byrhoedlog: Mae Canlyniad Manwl 2 yn cysylltu â dangosydd data (b) Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd tymor hir ar y stryd (absoliwt a'r gyfradd fresul 100,000 o'r boblogaeth)

**Beth yn eich barn chi fyddai cyfnod amser addas ar gyfer mesur digartrefedd tymor hir ar y stryd?**

i) **3 mis**
ii) 6 mis
iii) Arall (manylwch)

**Rhowch eich rhesymau am eich ateb.**

Dylai darpariaeth llety dros dro fod yn rhan o'r ateb ac er ein bod yn meddwl bod tri mis yn amser hir i fod yn ddigartref ar y stryd, i rai nid yw byw mewn llety a rennir yn opsiwn ymarferol ac mae angen ystyried hynny os defnyddir dull holistaidd.

**Cwestiwn 7**

Ymateb Gwasanaeth Cyhoeddus: Mae 'cadwyr lle' wedi'u nodi fel dangosyddion data posibl ar gyfer y dyfodol.

**A oes dangosyddion data cyfredol sy'n bodoli y carech dynnu ein sylw atynt sy'n ymwneud ag ymateb ehangach y gwasanaethau cyhoeddus?**

- Oes
- Nac oes
- **Ddim yn gwybod**

**If 'yes' - Please explain which existing current data indicators relating to the wider**
**Os 'oes' – esboniwch ba ddangosyddion data cyfredol?**

Er bod ein hateb yn ansicr, rydym yn awyddus i sicrhau bod cyn-filwyr yn cael eu cynnwys yn "Nid yw pobl yn cael eu rhyddhau o wasanaethau cyhoeddus eraill i ddigartrefedd" neu o bosibl o dan ddangosydd gwahanol gan y dylem fod yn ymwybodol o nifer y cyn-filwyr sy'n dychwelyd i fywyd sifil.

**Cwestiwn 8 (a)**

Carem glywed eich barn am effeithiau'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny?**

Gallai fod effaith ar ddarpariaeth a mynediad i addysg ar gyfer plant a phobl ifanc, p'un a ydynt yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg ai peidio, gallai newid ysgol ac unrhyw oedi leihau eu mynediad i'r Gymraeg.

**Cwestiwn 8 (b)**
**Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif?**
Dim ymateb.

**Cwestiwn 8 (c)**
**Sut y gellid lleihau'r effeithiau negyddol?**
Dim ymateb.

**Cwestiwn 9**

Rydym am ddeall hefyd sut y gallai'r Fframwaith Canlyniadau a gynigir ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd gael ei lunio neu ei newid i gael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb gael effeithiau negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sut y gallai'r fframwaith gael ei lunio neu ei newid i gael effaith bositif ar y Gymraeg?**

Dim ymateb.

**Cwestiwn 10**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych ragor o adborth am y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, nodwch ef yma:**

Wrth adolygu'r fframwaith, nid oedd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn siŵr sut y byddai hyn yn cysylltu â'r rhai sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio, megis meddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i werthu cyffuriau (cuckooing) a all arwain at golli tai diogel. Ymddengys hefyd bod rhai meysydd diogelu eraill heb eu cwmpasu ac yr hoffem eu gweld yn cael eu cynnwys. Yn yr un modd nid yw'n ymddangos y cyfeirir at dai diogel a allai fod at ddibenion iechyd ond hefyd at ddibenion diogelwch rhag cam-drin, casineb neu droseddau ar sail rhywedd (stelcian, cam-drin domestig). Mae'n bosibl hefyd y bydd angen cynnwys rhywbeth ynghylch y cyrff cyhoeddus datganoledig a'r cyrff cyhoeddus a gadwyd yn ôl, gyda HMPPS er enghraifft yn gorff a gadwyd yn ôl ynghyd â'r heddlu tra bod cynghorau ac iechyd wedi'u datganoli.